

Neges Basg 2019

Wrth i mi ysgrifennu, mae dyfodol y Deyrnas Gyfunol yn dal yn ansicr, a ninnau'n dathlu atgyfodiad ein Harglwydd Iesu: a fyddwn wedi ymneilltuo, heb gytundeb, o'r UE, ynghyd â'r cynnwrf gwleidyddol cymdeithasol ac economaidd a ddaw, o bosib, yn sgîl hynny; a fyddwn wedi ceisio ymestyniad, boed hynny'n hir neu fyr; a fyddwn yn paratoi gogyfer â refferendwm arall neu etholiad cyffredinol; a fyddwn wedi tynnu erthygl 50 yn ôl? Pwy wŷyr? Yr hyn sy'n hysbys yw na fydd ein tirwedd gwleidyddol fyth run fath mwyach. Beth bynnag a ddigwydd, taflwyd goleuni ar ein honiadau cysurus a diog braidd, ynglŷn â chwarae teg a chywirdeb Prydeinig, a rhaid dysgu o'r newydd sut mae sicrhau cyfundrefn wleidyddol, economiadd a chymdeithasol sy'n taro deuddeg o ran pawb; rhaid, hefyd, ailbwysleisio, a hynny yn llygad y cyhoedd, werth gwirionedd a phwysigrwydd dweud y gwir.

Galwad i ail-gofleidio gonestrwydd ac ystyried realiti bywyd – dyna ergyd yr Wythnos Fawr. Wrth i ni, unwaith yn rhagor, ddarllen y gair o'r newydd, a hynny o Sul y Blodau a phob dydd wedyn, drwy'r Wythnos Fawr, Dydd Gwener y Groglith a Sadwrn y Pasg, fe'n gelwir i ddiystyru chwedlau, hudoliaeth a chrefydd. O weld Iesu'n dod wyneb yn wyneb â'r arweinwyr crefyddol a gwleidyddol, gan eu herio â realiti moel Teyrnas Dduw, sef y cyfrwng lle roedd yn byw, yn symud ac yn bod, ac o weld eu cynllwynion a'u hesgusodion – ni allwn ond wynebu drachefn enbydrwydd anochel yr hoelion a chreulondeb y groes, sef man cyfarfod Teyrnas Dduw a dyfeisiadau dynol. Diau i amryw ohonom orfod dygymod eleni â phoen a dioddefaint anorfod a llethol, gan wybod fod Duw wrth ein hochor, ond eto i gyd yn ansicr pa effaith gaiff hynny. Mae'r Wythnos Fawr, y Groglith a Sadwrn y Pasg yn ein hatgoffa o'r her i ddal ati i'r eithaf. Gelwir ni, yn Gristionogion, a thrwy ras Duw, i wrando a disgwyl am alwad cariad amyneddgar ac addfwyn y Tad, ac i weithredu'n unol â hynny, doed a ddelo. Weithiau, ni allwn ond prin ddal gafael, bryd arall taranu yn wyneb y drefn, ond, ar dro bydd modd llawenhau a dawnsio, o weld argoelion atgyfodiad a gobraith. Gwelir y coffâd blynyddol hwn o ddycnwch amyneddgar Iesu adeg ei groeshoeliad, yn cyrraedd ei uchafbwynt eleni, fel pob blwyddyn, gyda'r newyddion brawychus a chynhyrfus: "Nid yw ef yma, y mae wedi atgyfodi.....wele ef yn mynd o'ch blaen i Galilea; fe'i gwelwch

ef yno.” Pan ddygodd Duw Iesu o farw, gwelwyd dechreuad gwireddu’r addewid yn Llyfr Datguddiad Ioan 21:5, “Wele yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd.” Ym marwolaeth mab Mair, Iesu, difethwyd pŵer pechod a marwolaeth. Yn atgyfodiad Iesu, mae bywyd diderfyn, diatal Duw yn treiddio i’n bywyd ninnau, gan ein herio i wynebu realiti ei gariad gydag edifeirwch a gobaith, i dderbyn ei gariad gyda diolchgarwch a llawenydd ac i rannu’r cariad hwnnw mewn gweithredu syml a ffydd. Wrth i ni, unwaith eto, ddilyn llwybr Iesu i Galfaria gan ollwng cri y Pasg o’n genau “Alelwia, Cyfododd Ef” boed i ni fod yn ddigon dewr, fesul diwrnod, i’w ganfod yn ein Galilea ein hunain, a byw Ei Fywyd Atgyfodedig mewn ffydd, gobaith a chariad, beth bynnag a ddaw.